



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I

**ARDAL GWARCHODAETH ARBENNIG (AGA) GLANNAU ABERDARON AC YNYS
ENLLI / ABERDARON COAST AND BARDSEY ISLAND**

Cyngor i Lywodraeth Cymru

CYFOETH NATURIOL CYMRU

Hydref 2013

CYNNWYS

1. Cyflwyniad a chefnidir
 - 1.1 Y fframwaith cyfreithiol
 - 1.2 Adolygiad AGA 2001
 - 1.3 Estyniadau morol i AGA lle ceir nythfeydd bridio
 2. AGA Glannau Aberdaron and Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island fel y mae ar hyn o bryd
 3. Newidiadau arfaethedig sy'n deillio o adolygiad AGA 2001
 4. Estyniadau morol arfaethedig
 - 4.1 Y sail resymegol
 - 4.2 Yr estyniad morol arfaethedig
 5. Cyfeiriadau
- Atodiad 1: Disgrifiad o'r safle, map a ffurflen data safonol Natura 2000 ar gyfer AGA Glannau Aberdaron and Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island fel y mae ar hyn o bryd
- Atodiad 2: Gwybodaeth ychwanegol

1. Cyflwyniad a chefnidir

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y cyngor a gynigir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i Lywodraeth Cymru ynglŷn â chynigion i newid y modd y caiff Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island ei dosbarthu dan Gyfarwyddeb Adar y CE. Mae dwy brif elfen yn perthyn i'r cyngor, sy'n seiliedig ar feysydd gwaith ar wahân y mae asiantaethau gwarchod natur y DU yn mynd i'r afael â nhw parthed diwygio rhwydwaith AGA y DU:

- (i) Gweithredu casgliadau 'adolygiad AGA 2001' (Stroud *et al.* 2001). Mae adolygiad 2001 yn awgrymu bod angen newid y rhestr o rywogaethau sy'n sail i gymhwysedd y safle fel AGA, yn benodol er mwyn adlewyrchu ei bwysigrwydd o safbwynt y brain coesgoch *Pyrhocorax pyrrhocorax* (nad ydynt yn bridio) a geir ar y safle. Nid yw'r adolygiad ei hun yn argymhell newid ffiniau'r safle.
- (ii) Gweithredu casgliadau'r gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y DU i fodloni rhwymedigaethau dan y Gyfarwyddeb Adar i nodi'r tiriogaethau mwyaf addas yn y môr. Ymestyn ffin yr AGA i gynnwys ardaloedd cyfagos a gaiff eu defnyddio gan adar drycin Manaw *Puffinus puffinus* oddi mewn i'r AGA bresennol ar gyfer ymddygiadau y gellir eu cysylltu'n uniongyrchol â'r defnydd a wnânt o'r safle bridio.

1.1 Y fframwaith cyfreithiol

O fewn Cyfarwyddeb Adar yr UE (2009/147/EEC¹) ceir fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwarchod a rheoli adar gwyllt sydd i'w cael yn naturiol ac sy'n perthyn i Aelod Wladwriaethau'r UE.

Yn ôl Erthygl 4 y Gyfarwyddeb Adar rhaid i'r Aelod Wladwriaethau ddosbarthu'r tiriogaethau mwyaf addas o ran nifer a maint fel ardaloedd gwarchodaeth arbennig ar gyfer gwarchod y rhywogaethau a restrir yn Atodiad I y Gyfarwyddeb, gan gymryd camau tebyg ar gyfer rhywogaethau ymfudol sydd i'w cael yn rheolaidd. Yr hyn sydd wrth wraidd dosbarthu AGA yw ystyried gofynion gwarchodaeth y rhywogaethau ar y tir a'r môr sy'n berthnasol i'r Gyfarwyddeb. Yn ôl cyfraith achosion Llys Cyfiawnder Ewrop, ni ddylai'r dasg o ddethol ardaloedd ar gyfer eu dynodi'n AGA, na'r dasg o bennu eu ffiniau, bwysu a mesur ystyriaethau cymdeithasol nac economaidd – yn hytrach, gwybodaeth adaregol yn unig y dylid ei hystyried.

Caiff AGA yng Nghymru eu dosbarthu gan Weinidogion Cymru dan adran 2 Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.² Unwaith y cânt eu dosbarthu, mae AGA yn dod yn 'safleoedd Ewropeaidd' neu'n 'safleoedd morol Ewropeaidd' o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, (Diwygiad 2012) ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Rheoliadau hynny ac Erthyglau 6(2) i 6(4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau³. Yn ôl polisi Llywodraeth Cymru, dylai AGA arfaethedig (AGA arfaethedig sy'n destun ymgynghoriad cyn penderfynu a ddylid eu dosbarthu'n ffurfiol) gael eu gwarchod i'r un graddau ag AGA sydd wedi'u dosbarthu.

¹ 79/409/EEC gynt

² Dyma ddarpariaeth gyffredinol sy'n galluogi gweinidogion i weithredu rhwymedigaethau sy'n deillio o ddeddfwriaeth yr UE.

³ 92/43/EEC

Cafodd AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island ei ddsbarthu yn 1992 gan Ysgrifennydd Gwladol y DU dros yr Amgylchedd ar y pryd oherwydd ei phoblogaethau bridio o Frain coesgoch, *Pyrrhocorax pyrrhocorax* ac Adar drycin Manaw *Puffinus puffinus*.

1.2 Adolygiad AGA 2001

Caiff holl AGA y DU eu dosbarthu ar y sail eu bod yn cynnal poblogaethau o un neu fwy o'r adar a enwir, neu gasgliad o adar, sef poblogaethau yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd Ewropeaidd.

Cynhaliwyd adolygiad AGA 2001 gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), *English Nature* (*Natural England* erbyn hyn), *Scottish Natural Heritage* a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) ac fe'i cyhoeddwyd yn 2001 (Stroud *et al.* 2001). Nod cyffredinol yr adolygiad oedd cael sail gyson ar gyfer nodi casgliad y DU o AGA tirol, yn seiliedig ar ddata a oedd yn deillio o ganol y 1990au. Un o brif ganlyniadau'r adolygiad oedd cyfres o 'adroddiadau safleoedd' ar gyfer 243 o AGA yn y DU, lle pennwyd pam yr oedd pob safle yn gymwys i fod yn AGA dan y Gyfarwyddeb Adar. Cafodd yr adroddiadau hyn eu seilio ar y data adaregol gorau a oedd ar gael ar y pryd, ac aethant ati i ymdrin yn gyffredinol â'r cyfnod rhwng 1991/1992 a 1995/1996, oni bai bod rhesymau da i'w cael dros ddefnyddio data cynharach neu hwyrach. Dyma'r data mwyaf cyfredol ar ddechrau'r adolygiad. Caiff yr argymhellion a nodir yn yr adolygiad eu seilio ar weithredu canllawiau dethol AGA 1999, a gyhoeddir gan y JNCC ar ran asiantaethau cadwraeth statudol y DU ac adrannau perthnasol y llywodraeth. Gweler canllawiau dethol AGA – adroddiad Y Gyfarwyddeb Adar ar wefan y JNCC.

Roedd y rhan fwyaf o'r safleoedd a gynhwyswyd yn adolygiad 2001 eisoes wedi'u dosbarthu fel AGA. Mewn sawl achos, mae adroddiadau safleoedd adolygiad 2001 yn nodi gwahanol rywogaethau fel diddordebau cymwys i'r rhai a restrir yn nisgrifiadau presennol yr AGA. Mewn achosion o'r fath, pwrpas adolygiad AGA 2001 yw cynnig sail dros ailddosbarthu'r safleoedd.

Cafodd AGA Glannau Aberdaron and Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island ei chynnwys yn adolygiad 2001. Mae ar ba sail y mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n barnu bod y safle'n gymwys fel AGA o dan y Gyfarwyddeb Adar wedi newid ers i'r AGA gael ei dosbarthu'n wreiddiol yn 1992, ac un o ddibenion y ddogfen hon yw argymhell ailddosbarthu'r AGA i adlewyrchu'r argymhellion yn adolygiad 2001.

1.3 Estyniadau morol i AGA lle ceir nythfeydd bridio

Er bod casgliad presennol y DU o AGA yn cynnwys ardaloedd addas o gynefinoedd ar y tir ar gyfer adar môr, yr angen bellach yw nodi'n llawnach y tiriogaethau mwyaf addas, gan ystyried yr angen i warchod y rhywogaethau ar y môr a chan gadw mewn cof fod rhwymedigaethau'r DU i nodi AGA yr un mor berthnasol i fôr y DU ag ydyw i'r tir.

Ni chafodd AGA morol eu hystyried yn adolygiad 2001, ac eithrio mewn perthynas â safleoedd arfordirol ac aberol a ddynodwyd ar sail adar môr a oedd yn bridio yno ac adar dŵr a oedd yn gaeafu yno. Yn unol â hyn mae'r JNCC, ar ran asiantaethau cadwraeth y DU, yn ystyried gofynion pedwar math o AGA forol:

1. Estyniadau morol i nythfeydd bridio adar môr ar yr arfordir
2. Cydgasgliadau ar y glannau o adar dŵr nad ydynt yn bridio
3. Cydgasgliadau o adar môr ar y môr
4. Mathau eraill o AGA morol

Mae rhan o'r gwaith hwn wedi'i gwblhau ac mae rhan arall yn dal i fod ar y gweill. Gellir cael mwy o wybodaeth am y gwaith ar wefan y JNCC o dan AGA morol y DU.

Mae rhan o AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island yn AGA lle ceir nythfa fridio ar gyfer adar môr – sef adar drycin Manaw. Dim ond i rif 1 uchod y mae'r newidiadau arfaethedig a gyflwynir yn y ddogfen hon yn berthnasol.

2. AGA Glannau Aberdaron and Ynys Enlli / Aberdaron Coast & Bardsey Island fel y mae ar hyn o bryd

Cafodd yr AGA ei dosbarthu yn 1992 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd ar y pryd er mwyn cynnwys rhan o'r arfordir ym mhen pellaf Pen Llŷn, Ynys Enlli/Bardsey Island ac Ynysoedd y Gwylanod/Gwylan Islands. Y marc distyll cymedrig yw ffin yr AGA tua'r môr.

Y rhywogaethau a restrir fel nodweddion cymwys yr AGA bresennol yw poblogaethau bridio'r rhywogaethau a ganlyn, sy'n bodloni Cam 1.1 neu Gam 1.2 canllawiau dethol AGA 1999 (ardal a ddefnyddir yn rheolaidd gan o leiaf 1% o boblogaeth Prydain Fawr neu boblogaeth rhanbarth bioddaearyddol perthnasol):

Brain coesgoch *Pyrhocorax pyrrhocorax*
Adar drycin Manaw *Puffinus puffinus*

Yn Atodiad 1 ceir disgrifiad o'r AGA bresennol, map a chopi o 'ffurflen data safonol Natura 2000'.⁴

3. Newidiadau arfaethedig sy'n deillio o adolygiad AGA 2001

Mae Tabl 1 isod yn cymharu'r hyn sy'n sail i'r AGA bresennol (yn ôl y disgrifiad cyfredol o'r safle) â'r adroddiad safle a gyhoeddwyd yn adolygiad AGA 2001. Cynigir y dylid mabwysiadu adroddiad safle adolygiad AGA 2001 yn ffurfiol fel sail i ddsbarthu'r AGA.

Nid oes unrhyw newidiadau'n cael eu cynnig i ffin yr AGA tua'r tir yn sgil adolygiad AGA 2001 (ond gweler yr estyniad morol arfaethedig sy'n cael ei ddisgrifio yn adran 4 isod).

⁴ Dyma'r ffurflen safonol a ddefnyddir i gyflwyno gwybodaeth am safleoedd Natura 2000 (AGA ac ACA) i'r Comisiwn Ewropeaidd. Caiff holl ffurflenni data'r DU ar gyfer AGA ac ACA eu cyhoeddi ar wefan y JNCC.

Tabl 1 Cymharu AGA Glannau Aberdaron and Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island gydag adroddiad safle adolygiad AGA 2001

Rhywogaethau	Erthygl berthnasol y Gyfarwyddeb Adar ⁵	Yr AGA bresennol (a ddsbarthwyd yn 1992; nodir y manylion yn y disgrifiad o'r safle)	Adroddiad safle adolygiad AGA 2001
Brain coesgoch <i>Pyrhacorax pyrrhacorax</i> (yn bridio)	4.1	14 o barau, sy'n cynrychioli 5% o boblogaeth fridio Prydain	12 o barau, sy'n cynrychioli o leiaf 3.5% o boblogaeth fridio Prydain Fawr (fel yr oedd y sefyllfa tua diwedd y 1990au)
Brain coesgoch <i>Pyrhacorax pyrrhacorax</i> (heb fod yn bridio)	4.1	Ni restrir y nodwedd	24 o unigolion ⁶
Adar drycin Manaw <i>Puffinus puffinus</i> (yn bridio)	4.2	Oddeutu 4,300 o barau, 2% o boblogaeth fridio Prydain	6,930 o barau, sy'n cynrychioli o leiaf 2.6% o'r boblogaeth fridio (fel yr oedd y sefyllfa yn 1996)

Y cynnig yw y dylai nodweddion cymhwyso'r AGA fod fel a ganlyn, yn unol â'r disgrifiad safle yn adolygiad AGA 2001:

- Poblogaeth fridio o Frain coesgoch *Pyrhacorax pyrrhacorax* (cam 1.1 o ganllawiau dethol AGA y DU)
- Poblogaeth fridio o Adar drycin Manaw *Puffinus puffinus* (cam 1.2 o ganllawiau dethol AGA y DU)
- Poblogaeth nad yw'n bridio o Frain coesgoch *Pyrhacorax pyrrhacorax* (cam 1.1 o ganllawiau dethol AGA y DU)

4. Estyniadau morol arfaethedig

4.1 Y sail resymegol

Mae adar môr sy'n bridio mewn nythfeydd ar y tir yn defnyddio'r môr sydd yn union wrth ymyl y nythfa i wneud nifer o weithgareddau hanfodol, er enghraifft trwsio'u plu, ymolchi, arddangos ac ymddygiadau eraill sy'n berthnasol i'w cynhaliaeth (Tasker & Leaper 1993, Reid & Webb 2005). Dengys arolygon penodol (McSorley *et al.* 2003) fod mathau arbennig o adar môr yn defnyddio'r dyfroedd hyn yn helaeth a bod ganddynt ddibyniaeth ecolegol glir ar y dyfroedd. Byddai estyniadau morol at AGA presennol o nythfeydd bridio adar môr yn cydnabod yr elfen hanfodol hon o ofynion ecolegol yr adar a thrwy hynny'n cynnal y nythfeydd adar môr ac yn sicrhau cydymffurfio â'r gofyniad yn Erthygl 4 o'r Gyfarwyddeb Adar i ddsbarthu'r 'tiriogaethau mwyaf addas' yn AGA.

Gan nad yw'r gweithgareddau hanfodol a nodir uchod yn ymwneud â safleoedd penodol, a chan y gallant ddigwydd dros ardaloedd eang, mae'r JNCC wedi cadarnhau canllawiau generig ar ba mor bell y dylai'r estyniadau hyn ymestyn i amgylchedd y môr, yn dibynnu ar y rhywogaethau bridio sy'n bresennol (McSorley *et al.* 2003, Reid & Webb 2005, McSorley *et al.* 2008). Mae'r canllawiau'n cynnwys yr argymhellion a ganlyn:

⁵ Erthygl 4.1: rhywogaethau a restrir yn Atodiad I y Gyfarwyddeb Adar. Erthygl 4.2: casgliadau o adar dŵr a rhywogaethau ymfudol a geir yn rheolaidd.

⁶ Sylwer: mae adolygiad AGA 2001 yn nodi 24 o barau yn hytrach na 24 o unigolion. Camgymeriad yn yr adroddiad yw hwn.

- y dylid ymestyn AGA lle ceir nythfeydd, y mae palod, gwylogod neu lursod yn nodweddion cymwys ar eu cyfer, 1km tua'r môr;
- y dylid ymestyn AGA lle ceir nythfeydd, y mae huganod neu adar drycin y graig yn nodweddion cymwys ar eu cyfer, 2km tua'r môr;
- y dylid ymestyn AGA lle ceir nythfeydd, y mae adar drycin Manaw yn nodwedd gymwys ar eu cyfer, o leiaf 4km, ac ymhellach lle ceir data penodol i ategu hyn. Ar gyfer y safle hwn cafodd arolwg penodol ei gynnal (McSorley *et al.* 2008), felly mae'r JNCC yn awgrymu y dylid ymestyn y ffin 9km tua'r môr.
- nad yw estyniadau morol ar AGA yn addas i'r nodweddion cymwys a ganlyn: mulfrain, sgiwennod, gwyllanod, trochyddion gyddfddu, gwyachod mawr copog, gwyachod corniog, môr-hwyaid du, adar llydandroed gyddfgoch; a
- bod gwaith ar y gweill o hyd i weld a oes yna sail dros warchod mwy ar fathau o fôr-wenoliaid, mulfrain gwyrdd a throchyddion gyddfgoch trwy gyfrwng AGA.

4.2 Yr estyniad morol arfaethedig

O blith y rhywogaethau sy'n sail i'r argymhelliad y dylid ymestyn ffin y safle tua'r môr er eu mwyn, poblogaeth fridio o adar drycin Manaw yw'r diddordeb cymwys perthnasol ar gyfer AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island.

Caiff yr estyniad morol a gynigir ei gyfyngu i ardaloedd y mae adar drycin Manaw yn ddibynnol arnynt mewn termau ecolegol – yn yr achos hwn ar gyfer 'ymddygiadau gweithgar' fel trwsio'u plu, ymolchi ac arddangos. Cyn iddi nosi yn ystod y tymor bridio, mae adar drycin Manaw llawn-dwf yn ymgasglu mewn heidiau ar wyneb y môr rhwng 1km a 10km o'r nythfa sydd ar y lan. Gall heidiau o'r fath gynnwys miloedd o unigolion. Ar ôl iddi nosi, mae'r adar yn hedfan i'w tyllau i fwydo'u cywion, gan gyfogi pysgod wedi'u treulio'n rhannol (Brooke, 1990). Mae'r estyniad arfaethedig yn ymgorffori'r ardaloedd heidio pwysig hyn.

Nid oes angen i'r estyniad morol arfaethedig o angenrheidrwydd gynnwys y nifer penodol o adar sy'n bodloni terfynau dethol yr AGA, gan mai estyniad o'r AGA bresennol ar y tir ydyw – mae'r AGA bresennol eisoes yn cynnwys y nifer angenrheidiol o adar drycin Manaw (McSorley *et al.* 2008, McSorley *et al.* 2003).

Yn ystod haf 2005, aeth y JNCC a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ati i gynnal gwaith maes ar Ynys Enlli i ddarganfod mwy am yr ardaloedd heidio y mae adar drycin Manaw yn eu defnyddio. Roedd y fethodoleg yn cynnwys tagio unigolion a oedd yn bridio. Cafodd y rhain wedyn eu dilyn trwy ddefnyddio radio-telemetreg er mwyn dod o hyd i leoliad yr heidiau ac asesu pa mor aml y câi ardaloedd heidio eu defnyddio (McSorley *et al.* 2008).

Mae canlyniadau'r astudiaeth ar Ynys Enlli a dau safle arall (Ynys Sgomer ac Ynys Rum) yn awgrymu bod 40-98% o'r adar a gafodd eu tagio wedi heidio yn y fath fodd o leiaf ddwywaith yn ystod yr astudiaeth. Gan mai'r niferoedd lleiaf a ddangosir yn y canlyniadau, penderfynwyd ei bod yn rhesymol casglu bod y rhan fwyaf o'r adar a gafodd eu tagio yn heidio yn y fath fodd yn rheolaidd. O gofio nifer yr adar a welwyd yn heidio (degau o filoedd mewn rhai achosion) (Brooke, 1990), rhesymol yw ystyried bod y rhan fwyaf o adar sy'n bridio yn mynd i heidiau o'r fath cyn mentro i'r lan – o leiaf weithiau, os nad bob tro.

O'r herwydd, caiff y dyfroedd a ddefnyddir i heidio o amgylch y nythfeydd eu hystyried fel adnodd hanfodol i adar drycin Manaw sy'n bridio – dyfroedd y mae'r adar yn ddibynnol arnynt mewn termau ecolegol. Felly, ystyrir bod ymestyn AGA lle ceir nythfeydd ar gyfer adar drycin Manaw ymhellach i amgylchedd y môr yn briodol (McSorley *et al.* 2008).


Mae'r ffiniau a luniwyd o amgylch yr ynys yn cynnwys 95% o'r boblogaeth heidiol amcangyfrifedig. Penderfynwyd bod gwrthod y 5% (95-100%) o'r lleoliadau sy'n weddill yn rhesymol, gan y byddai ymgorffori'r rhain mewn estyniad posibl tua'r môr yn golygu cynnwys rhannau mawr iawn o'r môr na chânt eu defnyddio i raddau helaeth gan adar sy'n heidio. Yn ôl dadansoddiad, ychydig o wahaniaeth a geid ym maint gofodol y creiddiau cnewyllo 90% a 95%. Ar sail hyn, a thrwy ddefnyddio dull rhagofalus, cafodd yr ardal a amgaeir gan y craidd 95% ei dewis i ddiffinio'r ardal y gwna'r adar heidiol ddefnydd helaeth ohoni.

Ar sail y dadansoddiad a ddisgrifir uchod, argymhellir y dylid ymestyn AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island yn ôl radiws o 9km, a fesurir o ffin yr AGA bresennol o amgylch Ynys Enlli yn unig (h.y. marc distyll cymedrig yr ynys). Nid yw'n fwriad ar hyn o bryd cynnwys unrhyw ardaloedd ychwanegol o dir yn yr AGA, ar wahân i nifer fach o frigiadau bach iawn o graig neu ynysigau sy'n gorwedd o fewn radiws o 9 km. Ni fyddai'n ymarferol allgáu'r ardaloedd bach iawn hyn o'r AGA estynedig. Lle mae'r estyniad arfaethedig yn ffinio â thir nad yw eisoes o fewn yr AGA (h.y. tir mawr Cymru), y ffin arfaethedig tua'r tir yw'r marc distyll cymedrig.

Mae Ffigur 1 yn dangos hyd a lled y nodwedd o ddiddordeb fel y'i diffinnir gan radiws o 9km. Mae hefyd yn dangos ffin arfaethedig ar gyfer yr AGA sy'n ymgorffori'r radiws hwn o 9km. Wrth ddiffinio ffiniau safleoedd morol, fel arfer mae angen cael cydbwysedd rhwng dilyn hyd a lled y nodwedd o ddiddordeb ar y naill law, a chadw'r ffin yn gymharol syml (heb ormod o gorneli) ar y llaw arall. Mae'r ffin arfaethedig tua'r môr yn Ffigur 1 wedi'i phennu trwy ddilyn egwyddorion y cytunwyd arnynt yn y gorffennol: y dylai fod mor syml â phosibl ac y dylid ei lleoli ar hyd llinellau lledred neu hydred neu ar ffurf llinellau croeslin rhwng dau bwynt pan fydd hyn yn arwain at ffin haws ei phennu neu ffin fwy ymarferol (Johnston *et al.* 2004). Os bydd y safle'n symud ymlaen i'r cyfnod ymgynghori, bydd map terfynol ar raddfa fawr yn cael ei lunio.

Mae Tabl 2 yn nodi'r cyfesurynnau arfaethedig ar gyfer yr estyniadau a argymhellir i ffin y safle tua'r môr (McSorley *et al.* 2008).

Ffigwr 1. Map o AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island yn dangos maint argymelledig elfen forol y nodwedd o ddi-ddordeb, a ffin bosibl yr AGA (McSorley *et al.* 2008)



Tabl 2. Cyfesurynnau ffin newydd arfaethedig AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island (mewn graddau, munudau a munudau degol (dau le degol) lledred a hydred):

Hydred	Lledred
-4°51.68'	52°51.16'
-4°45.83'	52°51.16'
-4°43.06'	52°50.47'
-4°38.28'	52°47.71'
-4°38.28'	52°43.76'
-4°43.80'	52°39.54'
-4°51.04'	52°39.54'
-4°56.47'	52°42.47'
-4°56.47'	52°47.42'

Caiff gwely'r môr, y golofn ddŵr ac wyneb y dŵr eu cynnwys yn yr estyniad arfaethedig.

Mae arwynebedd yr AGA bresennol yn 509.47 ha ac arwynebedd yr estyniad morol arfaethedig yn 33,432.95 ha yn fras, sy'n rhoi arwynebedd cyfan i'r AGA estynedig o 33942.42 ha yn fras. Mae'r ffigur arwynebedd hwn i'r safle presennol wedi ei gymryd o'r map cyfreithiol, gwreiddiol, a dynnwyd â llaw, a gallai newid ychydig ar ôl ei gipio ar fap sylfaen digidol cyfredol. Nid yw hyn yn golygu y bydd ffin bresennol y safle wedi newid ar y ddaear mewn unrhyw ffordd a bydd yn dal i ddilyn y nodweddion gwreiddiol, ond lle mae'r ffin yn dilyn marc llanw e.e. Marc Distyll Cymedrig, mae'r llinell yn debygol o newid

oherwydd prosesau arfordirol naturiol. Cyfrifwyd ffigur arwynebedd yr estyniad arfaethedig drwy gymryd arwynebedd yr AGA newydd yn ei chyfanrwydd llai arwynebedd yr AGA bresennol. Oherwydd y gallai arwynebedd safle'r AGA bresennol newid ychydig am y rhesymau a amlinellwyd uchod, gallai ffigur arwynebedd yr estyniad arfaethedig hefyd newid ychydig.

Mae ychydig dros hanner yr estyniad morol arfaethedig yn gorwedd o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau, a ddynodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2004 dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau'r CE 1992 (92/43/EEC). Mae oddeutu 14,500ha o'r estyniad morol arfaethedig yn gorwedd mewn dyfroedd nad ydynt ar hyn o bryd yn rhan o unrhyw ddynodiad Natura 2000.

5. Cyfeiriadau

DIENW, 2005. **Developing the Chough SPA suite; report from the Chough sub-group.** Gweithgor Gwyddonol AGA a Safleoedd Ramsar, Mai 2005.

BROOKE, M. 1990. **The Manx shearwater.** T & AD Poyser, Academic Press Ltd. Llundain.

JOHNSTON, C.M., TURNBULL, C.G., REID, J.B. & WEBB, A. 2004. **Marine Natura 2000: Update on Progress in Marine Natura. Paper to the Joint Committee Meeting,** Mawrth 2004.

MCSORLEY, C.A., DEAN, B. J., WEBB, A. & REID, J. B. 2003: **Seabird use of waters adjacent to colonies Implications for seaward extensions to existing seabird breeding colony SPAs.** Adroddiad gan y JNCC, rhif 329

MCSORLEY, C.A., WILSON L.J., DUNN, T.E., GRAY, C., DEAN, B.J., WEBB, A. & REID, J.B. 2008. **Manx shearwater *Puffinus puffinus* rafting behaviour around colonies on Skomer, Rum and Bardsey: its spatial extent and implications for recommending seaward boundary extensions to existing colony Special Protection Areas in the UK.** Adroddiad gan y JNCC, rhif 406

REID, J.B. AND WEBB, A. 2005. **Marine Natura 2000 – recommendations for the extension of existing seabird colony Special Protection Areas into the marine environment.** Papur Pwyllgor y JNCC 05 P14B.

RSPB (2009) **Chough Special Protection Areas in Wales: A report to the Countryside Council of Wales.** RSPB, Mai 2009.

STROUD, D.A., CHAMBERS, D., COOK, S., BUXTON, N., FRASER, B., CLEMENT, P., LEWIS, I., MCLEAN, I., BAKER, H. & WHITEHEAD, S. 2001. **The UK SPA network: its scope and content.** Cyfrolau 1-3. JNCC, Peterborough.

TASKER, M.L. & LEAPER, G.M. 1993. **Protecting marine birds in the United Kingdom: A review of the United Kingdom's international commitments, and recommendations for action.** Anghyhoeddedig. Adroddiad gan y JNCC, Peterborough.

Atodiad 1: Disgrifiad o'r safle, map a ffurflen data safonol Natura 2000 ar gyfer AGA Glannau Aberdaron and Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island fel y mae ar hyn o bryd

Disgrifiad

Cyfarwyddeb y GE 79/409 ynglyn â Gwarchod Adar Gwyllt: Ardal Warchod Arbennig

GLANNAU ABERDARON AND) YNYS ENLLI (GWYNEDD)
(ABERDARON COAST AND BARDSEY ISLAND)

Arfordir creigiog gyda llawer o frigiadau garw, clogwyni isel a sgri sy'n cynnal glaswelltir a gweundir arfordirol. Mae'r safle'n cynnwys yr arfordir ar ben pellaf Penrhyn Llŷn, ynghyd ag Ynys Enlli ac ynysoedd y Gwylanod. Mae ffiniau'r AWA arfaethedig yn dilyn ffiniau'r tri SoDdGA canlynol: Ynys Enlli (Bardsey Island), Ynysoedd Y Gwylanod (Gwylan Islands) a Glannau Aberdaron.

Mae'r safle'n gymwys o dan Erthygl 4.1 am ei fod yn cynnal 14 pâr bridio o frain coesgoch Pyrrhocorax pyrrhocorax, sy'n cynrychioli 5% o'r boblogaeth Brydeinig.

Mae hefyd yn gymwys o dan erthygl 4.2 am ei fod yn cynnal tua 4,300 pâr o adar drycin Manaw Puffinus puffinus sef 2% o'r boblogaeth Brydeinig.


Nodedig hefyd yw'r poblogaethau o fulfranod Phalacrocorax carbo, mulfranod gwyrdd P. aristotelis, hebogiaid tramor Falco peregrinus, gwylanod penwaig Larus argenatus a phalod Fratercula arctica, sydd oll yn nythu o fewn y safle.

AGA 1312A

Disgrifiad wedi ei ddiweddarau

HTR Ebrill 1992

Atodiad 1: Map [Saesneg yn unig]



NATURA 2000

STANDARD DATA FORM

FOR SPECIAL PROTECTION AREAS (SPA)
FOR SITES ELIGIBLE FOR IDENTIFICATION AS SITES OF COMMUNITY IMPORTANCE (SCI)
AND
FOR SPECIAL AREAS OF CONSERVATION (SAC)

1. Site identification:

1.1 Type **1.2 Site code**

1.3 Compilation date **1.4 Update**

1.5 Relationship with other Natura 2000 sites

U	K	0	0	1	3	1	1	7
U	K	0	0	3	0	2	7	1

1.6 Respondent(s)

1.7 Site name

1.8 Site indication and designation classification dates

date site proposed as eligible as SCI	
date confirmed as SCI	
date site classified as SPA	199206
date site designated as SAC	

2. Site location:

2.1 Site centre

location

longitude	latitude
04 44 34 W	52 48 34 N

2.2 Site area (ha) **2.3 Site length (km)**

2.5 Administrative region

NUTS code	Region name	% cover
UK913	Gwynedd	100.38%

2.6 Biogeographic region

Alpine Atlantic Boreal Continental Macaronesia Mediterranean

3. Ecological information:

3.1 Annex I habitats

Habitat types present on the site and the site assessment for them:

Annex I habitat	% cover	Representativity	Relative surface	Conservation status	Global assessment

3.2 Annex I birds and regularly occurring migratory birds not listed on Annex I

Code	Species name	Population			Site assessment			
		Resident	Migratory		Population	Conservation	Isolation	Global
			Breed	Winter				
A013	<i>Puffinus puffinus</i>		6930 P		B		C	
A346	<i>Pyrrhocorax pyrrhocorax</i>		12 P		B		B	

4. Site description:

4.1 General site character

Habitat classes	% cover
Marine areas. Sea inlets	30.0
Tidal rivers. Estuaries. Mud flats. Sand flats. Lagoons (including saltwork basins)	
Salt marshes. Salt pastures. Salt steppes	
Coastal sand dunes. Sand beaches. Machair	3.0
Shingle. Sea cliffs. Islets	15.0
Inland water bodies (standing water, running water)	
Bogs. Marshes. Water fringed vegetation. Fens	
Heath. Scrub. Maquis and garrigue. Phygrana	28.0
Dry grassland. Steppes	15.0
Humid grassland. Mesophile grassland	2.8
Alpine and sub-alpine grassland	
Improved grassland	5.0
Other arable land	1.0
Broad-leaved deciduous woodland	0.1
Coniferous woodland	
Mixed woodland	
Non-forest areas cultivated with woody plants (including orchards, groves, vineyards, dehesas)	
Inland rocks. Scree. Sands. Permanent snow and ice	
Other land (including towns, villages, roads, waste places, mines, industrial sites)	0.1
Total habitat cover	100%

4.1 Other site characteristics

Soil & geology:

Acidic, Basalt, Clay, Igneous, Metamorphic, Peat, Sedimentary

Geomorphology & landscape:

Cliffs, Coastal, Craggs/ledges, Hilly, Intertidal rock, Intertidal sediments (including sandflat/mudflat), Island, Lowland, Open coast (including bay), Slope

4.2 Quality and importance

ARTICLE 4.1 QUALIFICATION (79/409/EEC)

During the breeding season the area regularly supports:

Pyrrhocorax pyrrhocorax 3.5% of the GB breeding population
Count, as at late 1990s

ARTICLE 4.2 QUALIFICATION (79/409/EEC)

During the breeding season the area regularly supports:

Puffinus puffinus 3.2% of the population in Great Britain
Count, as at 1996

4.3 Vulnerability

Heavy levels of sheep grazing physically damage burrows of Manx shearwater; management plans to reduce livestock numbers are being considered. Invasion of bracken into coastal grassland is reducing feeding areas; methods to control bracken invasion are being considered. Parts of the area experience heavy recreational pressure from walkers and their dogs which disturb feeding chough, although this is not thought to be significant at present.

5. Site protection status and relation with CORINE biotopes:

5.1 Designation types at national and regional level

Code	% cover
UK01 (NNR)	35.5
UK04 (SSSI/ASSI)	100.4

Atodiad 2: Gwybodaeth Ychwanegol

1. FIGURAU ARWYNEBEDD AR FAPIAU

Am y rhesymau a amlinellir isod, bydd y ffigur arwynebedd ar y mapiau ymgynghori â'r cyhoedd a gynhrychir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, sy'n dangos yr estyniad morol arfaethedig at yr AGA, yn dangos ffigur arwynebedd fymryn yn wahanol ar gyfer y safle presennol o'i gymharu â map llaw presennol yr AGA.

(i) Yn y 1980'au canol, cafodd y mapiau AGA gwreiddiol eu tynnu ar fapiau sylfaen graddfa fach a'u cipio'n ddigidol yn ddiweddarach ar ôl i Asiantaethau'r Gwledydd fabwysiadu technoleg gwybodaeth ddaearyddol (GIS). Ers hynny mae'r data wedi bod drwy Ddiweddariad Gwella Cywirdeb Lleoliadol gan yr Arolwg Ordnans (OS), rhaglen a roddwyd ar waith ar draws y DU. Maent hefyd wedi cael eu trosi oddi ar Llandline OS, y raddfa fapio fwyaf a oedd ar gael ar y pryd, i Master Map OS. Mae'r gyfres hon o newidiadau wedi cyflwyno newidiadau bach i'r ffigur arwynebedd.

(ii) Yn unol â'r arfer safonol, caiff y mapiau o estyniadau safle posibl mewn cynigion a gyflwynir i Lywodraeth Cymru eu darparu ar raddfa fach a ffigurau bras yn unig yw'r ffigurau arwynebedd a nodir. Ar ôl cael cymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam ymgynghori â'r cyhoedd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n paratoi mapiau diffiniol, sy'n cael eu cipio ar y raddfa fapio fwyaf sydd ar gael. Mae'r gwahaniaeth bach yn ffigurau arwynebedd y safle yn deillio o'r ffigur arwynebedd cywirach a gaiff ei gyfrifo drwy fapio ar raddfa fwy.

2. MÂN GWIRIADAU I DDATA DIGIDOL

Yn ystod ymarferiad sicrhau ansawdd mewnol, canfuwyd dau wall digido bach yn ffin bresennol y safle.

(i) Roedd brigiad creigiog Maen Bugail wedi cael ei ddehongli fel pe bai wedi'i leoli o fewn safle'r AGA, tra mae'r map cyfreithiol, gwreiddiol yn dangos yr ynysig fach y tu allan i'r llinell ddotiau goch a oedd yn cwmpasu'r rhan honno o'r AGA bresennol. Mae wedi cael ei thynnu o ffin ddigidol, bresennol, yr AGA ar MapInfo.

(ii) Ar hyd arfordir gogleddol Ynys Gwylan-fawr, roedd brigiadau creigiog bach iawn wedi cael eu gadael y tu allan i ffin bresennol yr AGA ar MapInfo. Mae'r brigiadau bach hyn o fewn y llinell ddotiau goch sy'n nodi'r safle ar y map gwreiddiol, a dylent fod wedi cael eu cynnwys o fewn ffin bresennol yr AGA ar MapInfo. Mae'r data digidol yn gywir erbyn hyn. Mae ffigur arwynebedd safle presennol yr AGA yn ei gyfanrwydd wedi newid o 512.6 ha ar yr hen fap copi caled i 509.47ha ar ôl y cywiriad. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys pob rheswm bach arall dros newid sydd wedi'i amlinellu uchod.